



Briff Ymchwil  
**TB buchol yng Nghymru:  
llywodraethu a risg**

---

**Awdur:** Gareth Enticott

**Dyddiad:** Ionawr 2018



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Gareth Enticott**

Dyddiad: **Ionawr 2018**

Rhif Papur: **18-003**

## Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

☎ : 0300 200 7174

✉ : [Katy.Orford@Cynulliad.Cymru](mailto:Katy.Orford@Cynulliad.Cymru)

🌐 : [seneddymchwil.blog](http://seneddymchwil.blog)

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# TB buchol yng Nghymru: llywodraethu a risg

---



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Methodoleg.....</b>	<b>1</b>
<b>3. Mynd i'r afael â TB buchol yng Nghymru .....</b>	<b>1</b>
TB buchol a'i effeithiau.....	1
Polisiâu a strategaethau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru .....	2
Rhaglen o'r newydd Llywodraeth Cymru .....	2
Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru .....	3
<b>4. Rheoli risg masnachu.....</b>	<b>3</b>
Masnachu ar Sail Risg.....	3
Cymru.....	4
Awstralia.....	5
Seland Newydd.....	5
<b>5. Ffactorau sy'n effeithio ar greu cynlluniau Masnachu ar Sail Risg .....</b>	<b>6</b>
Llywodraethu .....	6
Arweinyddiaeth .....	7
Cyd-ddylunio .....	8
Cyfyngiadau cynlluniau gwirfoddol .....	8
<b>6. Llywodraethu TB buchol yng Nghymru.....</b>	<b>9</b>
Trefniadau presennol.....	9
Cwestiynau allweddol .....	9
<b>7. Ffynonellau Allweddol .....</b>	<b>10</b>

# 1. Cyflwyniad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu cynllun cymrodoriaeth i alluogi academyddion ar lefel gyrfa uwch (ôl-PhD) i dreulio amser yn gweithio gyda staff y Cynulliad ar brosiect ymchwil penodol mewn meysydd sydd o fudd i'r academydd ac i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Dr Gareth Enticott, Darllenydd yn yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio ym Mhrifysgol Caerdydd wedi ymgymryd â chymrodoriaeth sy'n cynnwys ymchwil sylfaenol ac eilaidd ar TB buchol (twberculosis buchol) yng Nghymru, yn rhinwedd ei swydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r prosiect wedi ymchwilio i'r canlynol: agweddau cymdeithasol ar reoli clefyd TB buchol yng Nghymru, modelau o fasnachu yn seiliedig ar risg, a'r dulliau llywodraethu a ddefnyddir yn llwyddiannus yn Seland Newydd ac Awstralia, a'u cymhwysedd i Gymru.

Cyflwynir allbynnau y gwaith ymchwil hwn yn y cyhoeddiad hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil, ac un arall o'r enw 'Goblygiadau Brexit ar gyfer TB buchol yng Nghymru'. Gyda'i gilydd, bwriedir iddynt gefnogi Aelodau'r Cynulliad o bob plaid wleidyddol i fod yn fwy gwybodus am TB buchol.

## 2. Methodoleg

Mae'r briff ymchwil hwn yn tynnu ar y gwaith ymchwil blaenorol a gynhaliwyd gan y Cymrawd rhwng 2012-2015 a oedd yn edrych ar hanes a llywodraethu TB buchol yn Seland Newydd. Roedd y gwaith ymchwil yn cynnwys dadansoddi archifau llywodraeth, cyfweiliadau â rhanddeiliaid polisi, milfeddygol a ffermio allweddol, a chyfweiliadau â ffermwyr mewn ardaloedd â risg uchel ac isel o TB yn Seland Newydd.

## 3. Mynd i'r afael â TB buchol yng Nghymru

Oherwydd ei effaith sylweddol ar les anifeiliaid, lles ffermwyr a hyfywedd busnesau fferm, mae mynd i'r afael â TB buchol yn flaenoriaeth i'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn **amcangyfrif mewn achos hirdymor o TB buchol, lle mae rhai buchesi wedi bod o dan gyfyngiadau am 16 mlynedd neu ragor, mai cost profi buchesi a'r iawndal am wartheg a gaiff eu difa yw £179,000 am bob buches ar gyfartaledd.**

### TB buchol a'i effeithiau

Clefyd heintus a chronig yw TB buchol a achosir gan *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*) ac mae fel arfer yn effeithio ar ysgyfaint a nodau lymff gwartheg. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall gwartheg heintiedig drosglwyddo'r clefyd cyn iddynt ddangos unrhyw symptomau, a all fod yn fisoedd lawer ar ôl iddynt gael eu heintio. Felly, mae rheoli TB buchol yn dibynnu ar ganfod a chael gwared ar wartheg heintiedig cyn gynted ag y bo modd. Er mai gwartheg a moch daear yw prif gynhalwyr y clefyd yn y DU, mae camelidau, ceirw, geifr ac anifeiliaid domestig hefyd yn agored i'r clefyd.

Mae **ystadegau diweddaraf Cymru ar TB buchol** yn dangos, yn y 12 mis hyd at fis Awst 2017, y cafodd 9,808 o wartheg eu difa o ganlyniad i'r clefyd, cynnydd o 2% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Yn yr un cyfnod, roedd 762 o achosion newydd â buchesi (o'i gymharu â 707 yn y 12 mis blaenorol, cynnydd o 8%). Mae Llywodraeth Cymru **yn nodi** gostyngiad o 40% yn nifer yr achosion newydd o TB ers 2009, y lefel isaf mewn 12 mlynedd.

## Polisiau a strategaethau a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu **Rhaglen Dileu TB Buchol** sy'n cynnwys nifer o elfennau gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys: profion blynyddol ar fuchesi gwartheg; ystod eang o fesurau rheoli gwartheg fel profion cyn symud; cyfyngiadau ar symud buchesi heintiedig; difa anifeiliaid heintiedig; a threialu brechu moch daear mewn **Ardal Triniaeth Ddwys** (a atalwyd yn gynnar oherwydd problemau gyda chyflenwad byd-eang y brechlyn).

Yn 2011, pasiodd Llywodraeth Cymru **Orchymyn Moch Daear (Ardal Reoli) (Cymru) 2011**. Rhoddodd y gorchymyn hwn bwerau i Lywodraeth Cymru wneud gwaith, os oedd yn dymuno, i ddifa moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys. Fodd bynnag, cafodd y gorchymyn hwn ei **ddiddymu yn 2012** gan John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y pryd, yn dilyn ei benderfyniad i fynd ar drywydd polisi brechu moch daear yn lle hynny. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno mynd ar drywydd gwaith difa yn yr Ardal Triniaeth Ddwys neu mewn rhannau eraill o Gymru yn y dyfodol, bydd angen ennill cefnogaeth ar gyfer gorchymyn newydd drwy'r Cynulliad. Er mwyn llywio'r polisi, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal arolwg o foch daear marw er mwyn deall yn well lefel y clefyd ymhlith moch daear yng Nghymru a'r berthynas rhwng haint TB mewn moch daear a gwartheg.

## Rhaglen o'r newydd Llywodraeth Cymru

Ym mis Hydref 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru **ymgyngoriad** 'Strategaeth o'r newydd ar gyfer dileu TB' (a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2017). Un newid allweddol yw cyflwyno dull rhanbarthol yn seiliedig ar achosion o TB buchol. Mae hyn yn rhannu Cymru'n dri chategori daearyddol o achosion TB buchol – ardaloedd TB buchol uchel, canolradd ac isel. Dywedodd yr ymgynghoriad y byddai mesurau gwahanol yn cael eu defnyddio ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn fel rhan o ddull gweithredu wedi'i dargedu. Roedd yr ystod o fesurau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn cynnwys:

- profion goruchwylio ar fuchesi gwartheg (yn flynyddol a bob chwe mis – yn dibynnu ar yr ardal);
- profion cyn symud;
- cyfyngiadau symud ar fuchesi heintiedig;
- cryfhau bioddiogelwch ar ffermydd;
- masnachu gwirfoddol yn seiliedig ar risg (gan symud i fasnachu gorfodol os oes angen);
- difa anifeiliaid heintiedig;
- lleihau symiau iawndal; a
- brechu moch daear pan fydd y brechlyn ar gael ac, o dan amgylchiadau penodol,
  - cael gwared ar foch daear heintiedig o ffermydd ag achosion cronig i dorri'r llwybr trosglwyddo rhwng moch daear a gwartheg.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd **crynodeb o'r ymatebion** ym mis Chwefror 2017. Gwnaeth Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig bellach, **ddatganiad llafar ar TB buchol ar 20 Mehefin 2017**.

Mae rhaglen o'r newydd ar gyfer dileu TB a'r cynllun cyflawni cysylltiedig bellach wedi'u cyhoeddi ac ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**. Mae **dogfen cwestiynau cyffredin (PDF 501KB)** yn rhoi rhagor o fanylion am lawer o'r trefniadau newydd. Cychwynnodd y rhaglen o'r newydd ar gyfer dileu TB

buchol ar 1 Hydref 2017. Ar 3 Hydref 2017, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad pellach **ynghlŷn â'r rhaglen ar gyfer** TB buchol yn y Cyfarfod Llawn. Cyhoeddwyd **datganiad ysgrifenedig** ar 12 Rhagfyr 2017 yn nodi targed dileu cenedlaethol i Gymru fod yn swyddogol rhydd rhag TB rhwng 2036 a 2041.

## Ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn 2017, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ymchwiliad i ddeall y dystiolaeth wyddonol a'r materion ehangach o ran mynd i'r afael â TB buchol. Cyhoeddodd yr **adroddiad ar ei ymchwiliad** ym mis Mai 2017. Mae **blog Pigion** y Gwasanaeth Ymchwil yn rhoi trosolwg o'r adroddiad. I grynhoi, mae'r adroddiad yn nodi, yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaeth i law, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo dull gweithredu newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru, wedi'i osod o fewn fframwaith rhanbartholi newydd. Bwriedir i'r rhaglen fod yn gynhwysfawr, gan fynd i'r afael â phob agwedd ar drosglwyddo'r clefyd, wedi'i hategu gan ystod eang o fesurau wedi'u targedu.

Cafodd y Pwyllgor **ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet** ar 17 Mai 2017. Derbyniwyd deg o'r deuddeg argymhelliad a derbyniwyd dau ohonynt mewn egwyddor.

## 4. Rheoli risg masnachu

Mae cyfyngu ar ledaenu'r haint yn rhan ganolog o reoli'r clefyd. Fel clefyd heintus, mae gan TB buchol nifer o lwybrau trosglwyddo, gan gynnwys o wartheg i wartheg ac o fywyd gwyllt i wartheg. Gall hefyd ledaenu drwy slyri wedi'i heintio ac offer fferm wedi'i halogi. Gall y broses o symud gwartheg drosglwyddo heintiau i fuchesi newydd, gan y gallai TB buchol fynd heb ei ganfod mewn gwartheg a brynwyd er eu bod wedi'u profi am TB. Nid yw risg TB buchol yn unffurf yng Nghymru, ac oherwydd hynny mae symud gwartheg drwy brynu yn golygu bod risg.

### Masnachu ar Sail Risg

Mae Masnachu ar Sail Risg (RBT) yn ddull o reoleiddio masnachu rhwng ffermydd i leihau'r risg o drawsleoli clefydau. Gall dulliau RBT amrywio: gallant fod yn statudol neu'n dibynnu ar ffurf o hunan-lywodraethu sy'n annog gwell 'dinasyddiaeth bioddiogelwch' ymysg ffermwyr. Yn ôl **adroddiad (PDF 347KB)** yn 2013 a baratowyd gan Grŵp Masnachu ar Sail Risg TB ymgynghorol ar gyfer Gweinidogion yr Adran Amgylchedd a Materion gwledig (Defra) yn 2012, roedd cynlluniau RBT yn ceisio llunio arferion prynu da byw ffermwyr drwy ddarparu gwybodaeth gywir am risgiau clefydau er mwyn:

---

*encourage farmers to consider the relative disease risk of animals that they are buying, empower them to make better informed cattle trading decisions, and take greater responsibility for managing the [disease] risk of their herd as part of wider efforts to stop the spread of [disease]*

---

Er y gallai cynlluniau RBT statudol yn syml wahardd gwerthu a symud anifeiliaid o un lle i le arall, gall RBT hefyd annog ffermwyr i wneud y penderfyniad cywir drwy osod gwerthoedd a chymhellion ar arferion ffermio. Wrth wneud hynny, mae RBT yn dilyn egwyddorion o newid ymddygiad drwy ddefnyddio normau cymdeithasol, gwneud penderfyniadau yn hawdd, a defnyddio cosbau economaidd. Er enghraifft, mae sgorio lefel risg y clefyd ar gyfer pob fferm yn nodi'r perfformwyr 'gorau' a 'gwaethaf', a all gynnig buddion economaidd i'r perfformwyr gorau a rhoi cymhellion cymdeithasol i berfformwyr isel wella eu harferion rheoli clefyd.

## Cymru

Yng Nghymru, mae rheoliadau statudol a mesurau gwirfoddol yn effeithio ar symud gwartheg. Mae rheolaethau statudol yn gwahardd gwerthu gwartheg o ffermydd sydd o dan gyfyngiadau TB buchol, oni bai bod y gwartheg yn symud yn uniongyrchol i'w difa neu i Uned Orffen Gymeradwy neu Drwyddedig (yn Lloegr). Nid oes unrhyw gyfyngiadau statudol ar gyfer prynu gwartheg o ddaliadau sy'n rhydd o TB yn swyddogol, waeth pa mor hir maent wedi bod yn glir o TB. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r holl wartheg sy'n cael eu symud fod wedi pasio prawf cyn symud. Yng Nghymru, mae'n bosibl nad yw'r prawf cyn symud yn cynnwys y fuches ddiwethaf a brofyd lle bo'r fuches honno wedi cael achos o TB yn ddiweddar. Os caiff gwartheg eu symud i ardal risg isel o Gymru, mae'n rhaid iddynt hefyd gael eu profi ar ôl symud.

Y tu hwnt i'r mesurau statudol hyn, mae ystod o gynlluniau gwirfoddol (a restrir isod) wedi ceisio annog 'prynu gwybodus' ymysg ffermwyr Cymru. Mae tystiolaeth o'u heffaith ar batrymau masnachu gwartheg yn gyfyngedig. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r mesurau hyn a rhai eraill ddod yn orfodol yn y dyfodol.

### Y Cynlluniau

Cafodd Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (**CHeCS**) eu cyflwyno ar 28 Tachwedd 2016 yng Nghymru a Lloegr. Mae aelodau'r cynllun yn cael sgôr risg yn amrywio o 0 i 10 i nodi'r risgiau TB buchol posibl o brynu gwartheg o'r ffermydd hyn (gweler Tabl 1). Mae'r system sgorio yn seiliedig ar ymchwil sy'n awgrymu bod y risg o TB buchol yn lleihau dros amser (Grŵp Masnachu ar Sail Risg TB Buchol, 2013). Rhaid i aelodau cynllun CheCS hefyd ynysu gwartheg a brynwyd a chynnal profion ar ôl eu symud, a sicrhau bod ffiniau caeau yn saff.

Gall bod yn aelod o'r cynllun CheCS ddod â buddion. Mewn ardaloedd risg isel yng Nghymru, nid oes rhaid i aelodau gynnal profion ar ôl symud os yw'r anifeiliaid a brynwyd yn dod o fuchesi achrededig CheCS sydd â sgôr o 10. Yn Lloegr, mae Defra wedi cynnig y gallai buchesi CheCS mewn ardaloedd risg uchel â sgôr o rhwng 5 a 10 gael eu profi yn llai aml na phob 6 mis.

**Tabl 1: Sgoriau risg o dan y cynllun Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS)**

Sgoriau Risg Cynllun achredu BUCHESI TB BUCHOL CheCs	
Sgôr Risg	Disgrifiad
0	Llai na blwyddyn ers haint TBb diwethaf
1-9	1-9 mlynedd ers haint TBb diwethaf
10	10 mlynedd neu fwy ers haint TBb diwethaf

Ffynhonnell: **CHeCS**

### Marchnadoedd da byw

Yn 2015, rhoddodd Llywodraeth Cymru arian grant er mwyn i farchnadoedd da byw uwchraddio cyfleusterau gwybodaeth. Roedd y grant 'Prynu Gwybodus' yn talu am 50% o gostau cymwys (hyd at uchafswm o £2,500) am offer fel byrddau arddangos a sgriniau. Mae deg marchnad (pedair yn y gogledd a chwech yn y de/canolbarth) wedi cael arian. Roedd marchnadoedd yn cael eu hannog i ddangos gwybodaeth yn ymwneud â statws TB anifeiliaid ar werth, gan gynnwys: dyddiad prawf cyn



symud; dyddiad prawf diwethaf y fuches; dyddiad y daeth y fuches yn rhydd o TB (os yn gymwys); ac aelodaeth o gynlluniau sicrwydd iechyd anifeiliaid (lle bo hynny'n berthnasol).

## Offer mapio ibTB

Ers 2015, mae gwybodaeth am ffermydd sydd naill ai o dan gyfyngiadau TB buchol, neu sydd wedi bod o dan y cyfyngiadau hynny, wedi cael eu cyhoeddi ar [wefan ibTB](#) sydd ar gael i'r cyhoedd. Offer mapio rhyngweithiol ar-lein yw ibTB sy'n dangos pob fferm yng Nghymru a Lloegr sydd wedi cael achos o TB ers 2013, p'lun a yw'r achos yn parhau neu wedi'i ddatrys. Gellir chwilio am ffermydd drwy ddefnyddio cod post neu rif Buches Plwyf Sirol (CPHH). Dangosir pob achos ar y map fel y gall defnyddwyr weld achosion eraill ar ffermydd cyfagos.

## Awstralia

Roedd cynllun RBT statudol yn rhan o'r cynllun dileu TB buchol llwyddiannus a gynhaliwyd yn Awstralia rhwng 1970-1997. Roedd y cynllun yn dosbarthu risg clefyd ar ddwy raddfa ofodol: ar lefel ranbarthol a lefel y fuches. Dosbarthwyd ardaloedd fel a ganlyn: rheoli, dileu, yn rhydd dros dro, ar fin dod yn rhydd (o 1986) a rhydd. Dosbarthwyd buchesi fel a ganlyn: wedi'u heintio, wedi'u cyfyngu, yn glir dros dro, Cadarnhawyd yn Rhydd 1 (dim tystiolaeth o haint yn y flwyddyn ddiwethaf), Cadarnhawyd yn Rhydd 2 (dim tystiolaeth o haint yn yr 8 mlynedd diwethaf), a Chadarnhawyd yn Rhydd 3 (dim tystiolaeth o haint am dros 8 mlynedd). Roedd rheoliadau yn pennu pa fuchesi ym mhob ardal oedd yn rhydd i symud i ba ranbarthau. Er enghraifft, nid oedd symudiadau yn cael eu caniatáu o fuchesi dan amheuaeth neu fuchesi clir dros dro mewn ardaloedd rhydd dros dro i ardaloedd sydd ar fin dod yn rhydd. Nid oedd cyfyngiadau ar fuchesi Cadarnhawyd yn Rhydd mewn ardaloedd rhydd i symud i ardaloedd rhydd ([More et al., 2015](#)).

## Seland Newydd

Yn Seland Newydd, caiff symudiadau gwartheg eu rheoli yn bennaf drwy system o reolaethau hunan-reoleiddio sy'n gweithredu ar lefel y fuches yn hytrach na graddfeydd rhanbarthol. Mae rheolaethau risg rhanbarthol yn bodoli: mae'n rhaid i wartheg mewn ardaloedd rheoli symudiadau gael eu profi cyn symud, ond nid oes unrhyw gyfyngiadau symud rhanbarthol eraill rhwng ardaloedd TB buchol uchel ac isel.

Yn hytrach, mae cynllun lefel buchesi yn ceisio dylanwadu ar symudiadau gwartheg drwy ddefnyddio cymhellion a normau cymdeithasol. Mae pob buches gwartheg yn cael sgôr - sy'n cael ei alw yn 'Sgôr C' - sy'n nodi nifer y blynyddoedd maent wedi bod yn glir o TB buchol (e.e. C7 yw 7 mlynedd yn rhydd) hyd at uchafswm o 10 mlynedd. Caiff buchesi sydd wedi'u heintio eu sgorio mewn modd tebyg, er enghraifft, 12 yw buches sydd wedi'i heintio am 2 flynedd. Mae'r sgôr yn rhoi statws economaidd a chymdeithasol i ffermwyr: gellir ystyried ffermwyr C10 fel 'ffermwyr da' a gall eu statws ddenu premiwm yn y farchnad. Yn fwriadol, mae gan y cynllun gosbau er mwyn datgymell rhag prynu gwartheg 'â risg'. Os bydd ffermwyr yn disodli mwy na 25% o'u buchesi gyda stoc statws is, yna dylai eu statws C newid i statws y gwartheg a brynir i mewn. Er enghraifft, pe byddai fferm C10 yn prynu digon o wartheg o fuches C5, byddai'n mabwysiadu'r dosbarthiad statws is. Fodd bynnag, mae'r system hon yn dibynnu ar hunan-lywodraethu gan ffermwyr ac nid oes unrhyw un yn monitro effaith prynu gwartheg ar statws C ffermwyr.

# 5.Ffactorau sy'n effeithio ar greu cynlluniau Masnachu ar Sail Risg

## Llywodraethu

Mae datblygu systemau RBT yn Awstralia a Seland Newydd yn gysylltiedig â newidiadau ehangach o ran llywodraethu TB buchol. Yn y cyd-destun hwn, mae llywodraethu yn cyfeirio at faint y cyfranogiad a rheolaeth mewn prosesau llunio polisiâu rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant. Mae cyfranogiad yn cynnwys cymryd rhan uniongyrchol wrth lunio polisi, cyfraniadau ariannol gan fuddiolwyr rhaglenni dileu TB buchol (h.y. ffermwyr a llywodraeth), ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn lleol. Ymddengys mai manteision y systemau llywodraethu hyn yw eu gallu i helpu i greu cydymffurfiaeth a 'pherchnogaeth' ymysg ffermwyr, a defnyddio arbenigedd ffermwyr a milfeddygon. Er bod efelychu elfennau o systemau llywodraethu sy'n bodoli yn Awstralia a Seland Newydd wedi dod yn rhan allweddol o raglenni dileu yng Nghymru a Lloegr, mae'n bwysig deall sut cafodd y systemau hyn eu creu wrth ystyried a ydynt yn addas a'u heffeithiolrwydd posibl.

## Awstralia

Mae cofnod hanesyddol o ddatblygu systemau llywodraethu yn Awstralia i ddelio â TB buchol wedi'u disgrifio gan Lehane (1996) a [More et al. \(2015\)](#). Mae'r adolygiadau hyn yn dadlau bod cyfranogiad y diwydiant a pherchnogaeth y cynllun yn hanfodol i'w lwyddiant. Tan 1984, roedd diwydiant yn chwarae rôl gymharol fach o ran llywodraethu TB buchol yn Awstralia. Roedd y rhaglen ddileu yn rhan o ddull cenedlaethol cydlynol a oedd yn ceisio dileu brwselosis a TB buchol - dyna pam mai'r enw yw Ymgyrch Dileu Brwselosis a Thiwbercwlosis (BTEC). Mae hanes BTEC, ynghyd â'i lwyddiannau a heriau, wedi cael eu hadolygu mewn amryw o ddogfennau academaidd a pholisi. Yn dilyn pryderon ymysg ffermwyr ynghylch effaith dadstocio buchesi heintiedig ar raddfa fawr, chwaraeodd grwpiau o ffermwyr ran fwy llafar, gan fod yn aelodau o bwyllgorau cynghori cenedlaethol, gwladwriaethol a rhanbarthol. Cafodd ardollau i dalu am weithgareddau dileu TB buchol eu casglu gan ffermwyr o Awstralia ers y 1970au, ond roedd hi'n 1987 nes y cafwyd cytundeb y byddai 50% o'r cyllid yn dod o'r diwydiant gwartheg. Mae'n bwysig nodi bod y profiadau hyn wedi llunio dulliau dilynol o reoli clefydau anifeiliaid yn Awstralia, megis creu [Animal Health Australia](#).

## Seland Newydd

Yn Seland Newydd, digwyddodd y gwaith o greu cynllun RBT ochr yn ochr â, ac fel rhan o, newidiadau i'r gwaith o lywodraethu dileu TB buchol. Yn Seland Newydd, mae TB Buchol yn cael ei reoli gan Operational Solutions for Primary Industries ([OSPRI](#)), a oedd yn cael ei alw cyn hynny yn Animal Health Board (AHB). Sefydlwyd yr AHB fel cymdeithas gorfforedig yn 1998, ar ôl pasio *Deddf Bioddiogelwch 1993* Seland Newydd ([Livingstone et al., 2015](#)). Daeth yr AHB yn gyfrifol am rôl Asiantaeth Rheoli Plâu, gan lunio a chyflawni Strategaeth Rheoli Plâu Cenedlaethol ar gyfer TB ([Hutchings et al., 2013](#)). Digwyddodd y gwaith o greu'r AHB yr un pryd â chynnwrf cymdeithasol ac economaidd dwys yn ystod 1980au. Lleihawyd cyllid ar gyfer rheoli clefydau, tra bod swyddogaethau rheoli clefydau a oedd fel arfer yn cael eu gwneud gan y llywodraeth yn cael eu preifateiddio. Wrth gydnabod yr effaith y gallai'r amgylchedd newidiol hwn ei chael ar achosion o glefydau, gweithiodd ffermwyr, milfeddygol a llunwyr polisi gyda'i gilydd i roi hwb i greu system llywodraethu newydd. Cyfrannodd ffermwyr yn ariannol drwy ardollau, a thrwy fod yn aelodau o fyrddau rhanddeiliaid yn rhanbarthol a chenedlaethol i ddylunio a gweithredu polisi yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth

Yn Awstralia a Seland Newydd, roedd unigolion allweddol yn chwarae rhan bwysig yn ail-ddylunio systemau llywodraethu a chreu systemau RBT. Yn y ddwy wlad, mae tystiolaeth o arweinwyr ffermio a milfeddygon yn ymyrryd ar adegau pwysig er mwyn newid perchnogaeth polisi TB buchol tuag at y ffermwyr.

Yn Seland Newydd, cafodd y system RBT ei chreu i ddechrau gan arwerthwr a ffermwyr lleol a oedd yn rhan o'r Pwyllgor Cyngori Iechyd Anifeiliaid Rhanbarthol (RAHAC) yn ardal East Coast / Hawkes Bay. Cafodd RAHACs eu sefydlu i ddechrau yn y 1960au fel ffordd o ymgysylltu â ffermwyr. Cafodd y grŵp ei arwain gan Ross Bramwell, arwerthwr lleol, a ddaeth, ynghyd â ffermwyr lleol eraill, yn bryderus ynghylch nifer y gwartheg o ranbarthau o achosion uchel o TB buchol, fel Wairarapa, yn cael eu gwerthu yn Hawkes Bay gan drosglwyddo'r clefyd. Yn 1991, dechreuodd y Pwyllgor fynnu y byddai'n rhaid i unrhyw wartheg ar werth yn eu hiard werthu arddangos cardiau Datganiad Statws Anifail (ASDs) yn egluro hanes TB buchol eu buchesi.

Yn fuan ar ôl i'r mesurau hyn gael eu gweithredu gan RAHAC, cafodd system cardiau ASD ei mabwysiadu yng ngweddill Seland Newydd a dyma oedd y sylfaen ar gyfer cynllun statws 'Sgôr C'. Roedd ffermwyr o ardaloedd â lefelau uchel o TB buchol wedi'u synnu i ddechrau a'u cythruddo gan y gofynion. Er gwaetha'r risgiau i'r busnesau iard gwerthu, a beirniadaeth gan ffermwyr oedd yn llai pryderus ynghylch statws clefyd eu gwartheg yr oeddent yn eu prynu a'u gwerthu, fe wnaeth arweinwyr RAHAC ddyfalbarhau â'r system, gyda chefnogaeth ffermwyr lleol eraill a oedd yn gweld y gwerth o leihau TB buchol drwy RBT.

HB REGIONAL ANIMAL HEALTH ADVISORY COMMITTEE  
IDENTIFICATION OF BOVINE T.B. STATUS

Vendor \_\_\_\_\_  
Class of Cattle \_\_\_\_\_


1. Please state length of time stock has been on property. \_\_\_\_\_  
2. If not bred on property state district of origin. \_\_\_\_\_  
3. Date of last herd surveillance test (year). \_\_\_\_\_

**PLEASE TICK ONE OF THE FOLLOWING**

1. PROPERTY IS ON MOVEMENT CONTROL   
2. PROPERTY IS T.B. FREE   
3. PROPERTY IS ACCREDITED   
4. UNKNOWN STATUS

**THIS CARD MUST ACCOMPANY ALL STORE CATTLE PRESENTED FOR SALE**  
CERTIFIED TRUE AND CORRECT

Name \_\_\_\_\_  
Signature \_\_\_\_\_ Date \_\_\_\_\_



Mae'r delweddau uchod yn dangos enghreifftiau cynnar o RBT ar gyfer TB buchol yn Seland Newydd. Dangosir y cardiau ASD gwreiddiol a ddatblygwyd yn Hawkes Bay ar y chwith. Yn ddiweddarach, cawsant eu mabwysiadu gan AHB a'u roi mewn blychau i'w harddangos mewn marchnadoedd da byw. Ffynhonnell: Y cymrodyr ei hun.

## Cyd-ddylunio

Yn Seland Newydd, cafodd y cynllun RBT ei ddylunio ar gyfer ffermwyr gan ffermwyr, a oedd yn hanfodol er mwyn cael ei dderbyn yn lleol. Pan gafodd y cynllun RBT ei fabwysiadu gan yr AHB a'i drawsnewid i'r system statws 'Sgôr C' presennol, roedd ffermwyr yn parhau i fod yn rhan hanfodol o'r gwaith o'i ddylunio. Awgrymodd epidemiolegwyr yn yr AHB newid y system i ddsbarthiad dau bwynt yn seiliedig ar eu data o glefydau yn dod yn ôl: byddai buchesi yr oedd eu hachos diwethaf dros 4-5 mlynedd bellach yn cael eu galw yn risg isel a'r eraill yn risg uchel. Fodd bynnag, roedd ffermwyr yn ffafrio'r system 1-10 gan ei ystyried yn fwy amlwg ac yn haws i ffermwyr ei deall. Yn yr ysbryd o bartneriaeth wrth greu'r AHB, cafodd barn y ffermwyr flaenoriaeth a chafodd y system 1-10 ei mabwysiadu yn genedlaethol.

## Cyfyngiadau cynlluniau gwirfoddol

### Tystiolaeth

Mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth o gyfraniad dulliau gwirfoddol RBT. Yn Seland Newydd, nid oes unrhyw waith monitro na gwerthuso ffurfiol o'r cynllun statws 'Sgôr C'. Mae modelu diweddar symudiadau gwartheg yn Seland Newydd yn awgrymu bod dynodiadau risg rhanbarthol wedi siapio symudiadau gwartheg, ond bod cyfran sylweddol o symudiadau gwartheg yn adlewyrchu ystod o ffactorau sy'n mynd y tu hwnt i'r penderfyniad rhesymol o ddewis prynu gwartheg â'r risg leiaf o glefyd. Yn lle hynny, gallai ffactorau fel perthnasau sefydledig rhwng cyflenwr a phrynwr, rôl ymddiriedaeth a defnydd cynghorwyr ymddiried, yn ogystal â chanfyddiadau unigol tuag at risg afiechyd, chwarae rhan sylweddol wrth siapio penderfyniadau ar glefyd ([Hidano et al., 2016](#)).

### Dealltwriaeth Ffermwyr o Glefyd

Mae [gwaith ymchwil cymdeithasol](#) yn dangos bod ffermwyr yn creu eu darlun eu hunain o epidemiolog TB buchol o'u profiadau eu hunain, ac o hanes problemau ffermwyr eraill sy'n cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r hanesion hyn o glefyd yn aml yn amrywio o safbwyntiau swyddogol neu wyddonol, ac yn arwain at beidio â mabwysiadu cyngor bioddiogelwch. Mae'r ddealltwriaeth leyg hon o TB buchol hefyd yn effeithio ar y defnydd o systemau gwirfoddol o RBT. Yn Seland Newydd, mae astudiaethau o effaith statws 'Sgôr C' yn dangos er bod ffermwyr yn deall y sgôr, mae ei pherthnasedd yn dibynnu ar gyd-destun:

- 01.** Mae ansawdd y gwartheg yn bwysig wrth wneud penderfyniadau prynu. Gall yr ansawdd amrywio yn rhanbarthol ac efallai nad yw'n gysylltiedig â chlefyd.
- 02.** Mae ffermwyr mewn ardaloedd risg uchel yn credu bod TB buchol yn fater o lwc a siawns yn hytrach nag arferion ffermio da. Mae'r dynghediaeth hon yn golygu bod y statws 'Sgôr C' wedi rhoi canllaw cyfyngedig i ddiogelwch y gwartheg a brynwyd.
- 03.** Pan nad yw canlyniadau TB buchol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar fusnes y fferm, a/neu pan nad yw ffermwyr yn cael eu cymell gan ehangu, gallai gwella'r statws 'Sgôr C' fod yn gyfyngedig o ran ei werth.

### Gwerthuso cynlluniau yng Nghymru a Lloegr

Er y dylai aelodaeth o gynlluniau fel CheCs fod yn cymharol hawdd i'w olrhain, nid oes cymaint o wybodaeth ynghylch dulliau gwirfoddol eraill o brynu gwybodus. Er enghraifft, er bod ymchwil wedi dangos bod llawer yn defnyddio gwefan ibTB, nid yw graddau hynny na'r rheswm dros ei defnyddio yn hysbys. Nid yw'n glir ychwaith *pwys* sy'n defnyddio ibTB. Er bod y defnydd ar hyn o bryd tua 100 o ymweliadau y dydd, mae tystiolaeth hefyd bod ibTB yn cael ei defnyddio gan rai mewn mudiadau sy'n erbyn difa moch daear. Gallai system o gofrestru defnyddwyr wella ibTB fel a ganlyn:

- Caniatáu asesiad mwy cywir o ddefnydd gan ffermwyr;
- Darparu data ychwanegol (fel ffermwyr heb TB buchol; manylion am y math o achosion; sgorau risg TB buchol);
- Darparu dulliau cyfathrebu wedi'u dargedu ynghylch TB buchol yn ardal leol ffermwyr (fel rhybuddion dros neges destun) a/neu cyngor bioamrywiaeth/arfer gorau perthnasol.

## 6.Llywodraethu TB buchol yng Nghymru

### Trefniadau presennol

Caiff **Rhaglen Dileu TB Buchol** yng Nghymru ei rhedeg gan Lywodraeth Cymru a'i darparu mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a phartneriaid cyflawni milfeddygol sy'n cynnal profion TB ac ymweliadau â ffermydd. Mae'r Bwrdd Rhaglen Dileu TB Buchol yn goruchwyllo'r rhaglen, ac mae'n cynnwys ystod o randdeiliaid sy'n gysylltiedig â ffermio. Mae'r trefniant hwn yn wahanol i'r hyn sy'n Seland Newydd ac Awstralia lle telir ar y cyd am y rhaglen dileu gan ffermwyr a'r llywodraeth, ac mae gan gynrychiolwyr o'r diwydiant ffermio bwerau gwneud penderfyniadau. Mae tri bwrdd cyflawni dileu rhanbarthol yng Nghymru (gorllewin, de/canolbarth a'r gogledd) sy'n cynnwys ffermwyr lleol, milfeddygon a rhanddeiliaid amaethyddol eraill. Mae gan y byrddau bwerau cyfyngedig i weithredu'n annibynnol, ond maent wedi cynnig treialon lleol i brofi dulliau newydd ar gyfer rheoli TB buchol.

### Cwestiynau allweddol

Mae gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y gymrodoriaeth hon yn awgrymu nifer o gwestiynau allweddol:

#### 01.Pa benderfyniadau y gall ac y dylai rhanddeiliaid yng Nghymru eu gwneud?

Mae diwygiadau i lywodraethu clefydau yn thema gyson mewn rhaglenni dileu llwyddiannus yn Awstralia a Seland Newydd. Ym mhob un o'r enghreifftiau hynny, fe wnaeth llunwyr polisi ildio tir i'r diwydiant ffermio gan arwain at greu dulliau newydd o reoli TB. Ar gyfer llywodraethu TB yng Nghymru, mae hyn yn codi'r cwestiwn o ran i ba raddau y mae'r dull hwn o wneud penderfyniadau datganoledig yn ddymunol neu beidio, a pha benderfyniadau y dylid caniatáu i randdeiliaid eu gwneud?

#### 02.A oes awydd ymysg y diwydiant ffermio i gymryd perchnogaeth dros TB buchol yng Nghymru?

Mae profiadau Awstralia a Seland Newydd hefyd yn amlygu i ba raddau y mae aelodau o'r diwydiant ffermio yn gorfodi newidiadau i'r ffordd y mae'r llywodraeth yn rheoli TB buchol. Heb yr awydd hwn am newid ac arweinyddiaeth ymysg y diwydiant ffermio, ni fyddai unrhyw un o'r ymyriadau llwyddiannus - fel datblygu Masnachu ar Sail Risg - wedi'u cyflawni. Y cwestiwn i Gymru yw i ba raddau y mae rhanddeiliaid wedi dangos arweinyddiaeth wrth reoli'r clefyd, neu a oes well ganddynt i lywodraeth ddatrys problem TB buchol?

#### 03.A oes modd gwella Masnachu ar Sail Risg yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at fwriad i symud o system wirfoddol i system orfodol o fasnachu ar sail risg. Fodd bynnag, mae'n bosibl datblygu ac asesu dulliau hunan-reoleiddio eraill ar gyfer RBT. Gallai'r rhain gynnwys adrodd ar symudiadau gwartheg 'â risg' yn rhanbarthol i helpu i hyrwyddo diwylliant o fiaddiogelwch. Yn yr un modd, gall categoreiddio pob fferm gan ddefnyddio'r metrig "blynyddoedd yn rhydd o TB" fel arfer safonol helpu'r ffermwyr hynny mewn ardaloedd risg

uchel heb TB, a helpu ffermwyr i weld risg y gwartheg y maent yn bwriadu eu prynu. Yn olaf, gellid gwella dulliau presennol fel ibTB er mwyn darparu gwybodaeth bersonol i ddefnyddwyr.

#### **04.** Pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer cynllun Masnachu ar Sail Risg gorfodol?

Fel y nodwyd uchod, mae newidiadau o ran rheoli TB buchol mewn mannau eraill wedi cael eu gyrru gan y diwydiant ffermio. Bydd angen dangos y rhesymeg dros symud i system orfodol ac asesu'r manteision ac effeithiau tebygol. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, dadansoddi'r rhesymau pam bod y cynllun gwirfoddol wedi methu, ac ymgais i gynnwys cynrychiolwyr ffermio yn y gwaith o ddylunio cynllun RBT i sicrhau bod ganddynt berchnogaeth drosto.

## **7.Ffynonellau Allweddol**

### **Masnachu ar Sail Risg yn y DU**

#### **CheCs**

#### **ibTB**

#### **TB Hub**

Adkin, A., A. Brouwer, R. R. L. Simons, R. P. Smith, M. E. Arnold, J. Broughan, R. Kosmider a S. H. Downs (2016) Development of risk-based trading farm scoring system to assist with the control of bovine tuberculosis in cattle in England and Wales. [Preventive Veterinary Medicine 123: 32-38.](#)

Adkin, A., A. Brouwer, S. H. Downs a L. Kelly (2016) Assessing the impact of a cattle risk-based trading scheme on the movement of bovine tuberculosis infected animals in England and Wales. [Preventive Veterinary Medicine 123: 23-31.](#)

Bovine TB Risk Based Trading Group (2013) [Bovine TB Risk-Based Trading: Empowering Farmers to Manage TB Trading Risks \(PDF 346KB\).](#)

### **TB Buchol yn Awstralia**

#### **Animal Health Australia**

Cousins, D. V. a J. L. Roberts (2001) Australia's campaign to eradicate bovine tuberculosis: the battle for freedom and beyond. [Tuberculosis 81\(1-2\): 5-15.](#)

Lehane, R. (1996) Beating the odds in a big country. The eradication of bovine brucellosis and tuberculosis in Australia. Collingwood, Australia, CSIRO.

More, S. J., B. Radunz a R. J. Glanville (2015) Lessons learned during the successful eradication of bovine tuberculosis from Australia. [Veterinary Record 177\(9\): 224-232.](#)

Radunz, B. (2006) Surveillance and risk management during the latter stages of eradication: Experiences from Australia. [Veterinary Microbiology 12: 283-290.](#)

### **TB Buchol yn Seland Newydd**

Operational Solutions for Primary Industries [OSPRI](#) (formerly the Animal Health Board).

Animal Health Board (2012) [Making TB History \(PDF 4.18 MB\).](#)

Hutchings, S. A., N. Hancox a P. G. Livingstone (2013) A Strategic Approach to Eradication of Bovine TB from Wildlife in New Zealand. [Transboundary and Emerging Diseases 60: 85-91.](#)

Livingstone, P. G., N. Hancox, G. Nugent a G. W. de Lisle (2015) Toward eradication: the effect of Mycobacterium bovis infection in wildlife on the evolution and future direction of bovine tuberculosis management in New Zealand. **New Zealand Veterinary Journal 63(sup1): 4-18.**

Livingstone, P. G., N. Hancox, G. Nugent, G. Mackereth a S. A. Hutchings (2015) Development of the New Zealand strategy for local eradication of tuberculosis from wildlife and livestock. **New Zealand Veterinary Journal 63(sup1): 98-107.**

### **Ymchwil ar agweddau ffermwyr at TB Buchol a Masnachu ar Sail Risg**

Enticott, G. (2008). The ecological paradox: Social and natural consequences of the geographies of animal health promotion. **Transactions of the Institute of British Geographers 33(4): 433-446.**

Enticott, G. (2016). Market instruments, biosecurity and place-based understandings of animal disease. **Journal of Rural Studies 45: 312-319.**

Hidano, A., T. E. Carpenter, M. A. Stevenson and M. C. Gates (2016) Evaluating the efficacy of regionalisation in limiting high-risk livestock trade movements. **Preventive Veterinary Medicine 133: 31-41.**